



**Caring Together  
Western Bay**  
*Health and Social Care Programme*  
**Gofalu Gyda'n Gilydd  
Bae'r Gorllewin**  
*Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol*

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

**7 Rhagfyr 2017**

**10.00am - 12.00pm**

**Ystafell Bwrdd, Pencadlys PABM, Baglan**

### Cofnodion

#### Cynrychiolwyr

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Blaenlythrennau</b>
Yr Athro Andrew Davies (Is-gadeirydd)	BI PABM	AD
Maggi Berry	BI PABM	MB
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Y Cynghorydd Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HD
Darren Mephram	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	Dirprwy Reolwyr
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cynghorydd Rob Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot	RJ
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Andrew Jarrett	CBS Castell-nedd Port Talbot	AJ
Y Cynghorydd Mark Child	Cyngor Abertawe	MC
Chris Sivers	Cyngor Abertawe	CS
Debbie Smith	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	DS
Caritas Adeve	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	CA
Gaynor Richards	CGG CNPT	GR
Linda Jagers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio/Y Trydydd Sector	ET
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Adele Rose-Morgan	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	ARM
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru/Y Trydydd Sector	CT
Sara Harvey	Bae'r Gorllewin	SH
Louise Fraser-Cole	Bae'r Gorllewin	LFC

#### Yn bresennol

Joanne Abbott-Davies (eitem 8 ar yr agenda)	BI PABM	JAD
---	---------	-----

#### Ymddiheuriadau

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Blaenlythrennau</b>
Alex Howells	BI PABM	AH
Dave Howes	Cyngor Abertawe	DH
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Cyngor Abertawe	CL
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DP
Steven Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	SP

Phil Roberts	Cyngor Abertawe	PR
Y Cyngorydd Rob Stewart (Cadeirydd)	Cyngor Abertawe	RS
Y Cyngorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
Rosita Wilkins	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	RW

Cyf.	Eitem	Cam Gweithredu
<b>1</b>	<b>Ethol Cadeirydd</b>	
1.1	Esboniodd AD nad oedd y Cadeirydd presennol, RS, yn gallu dod oherwydd ymweliad â Hull ar gyfer canlyniad Dinas	
1.2	Diwylliant y DU. Aeth DS drwy gylch gorchwyl y BPRh mewn perthynas ag ethol Cadeirydd. Mae'r cylch gorchwyl yn nodi bod rhaid i holl aelodau bwrdd cyrff partneriaeth fod yn bresennol ond teimlir y dylid diwygio hyn i nodi y gellir cynnal pleidlais ar yr amod bod cynrychiolaeth o bob corff partneriaeth.	<b>DS i ddiwygio'r cylch gorchwyl fel a gytunwyd gan y BPRh</b>
1.3	Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer ethol Cadeirydd. Enwebwyd RJ gan AD ac eiliwyd gan HD. <b>Cytunodd pawb i ethol y Cyngorydd Rob Jones yn Gadeirydd</b> Diolchodd RJ i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae RJ yn teimlo bod angen ystyried meysydd perthnasol eraill wrth fynd ymlaen a bod hyn yn gyfle i hunanwerthuso gwaith a chanlyniadau'r rhanbarth. Teimlir bod y newid arfaethedig i ffiniau ym mis Ebrill 2019 yn gyfle delfrydol i sicrhau bod Bae'r Gorllewin yn addas at y diben. Achubodd RJ ar y cyfle i ddiolch i'r holl bartneriaid am y llwyddiant hyd yn hyn. Gofynnodd RJ i AD barhau i gadeirio'r cyfarfod am nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.	
<b>2</b>	<b>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b> Croesawodd AD bawb i'r cyfarfod. Gwnaed cyflwyniadau. Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod.	
<b>3</b>	<b>Datganiadau o Gysylltiadau</b> Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau	
<b>4</b>	<b>Cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol: 21 Medi 2017</b>	
4.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf ac eithrio'r canlynol:	
4.2	Nododd MM ei bod wedi'i nodi o dan 'presennol' ac o dan yr 'ymddiheuriadau'. Cadarnhaodd MM ei bod yn bresennol yn y cyfarfod.	<b>Diwygio'r cofnodion i ddangos bod MM yn bresennol</b>
<b>5</b>	<b>Materion yn codi a chofnod gweithredu</b>	
5.1	Adroddiad Gwerthuso Cydlynu Ardaloedd Lleol (CALI)/ Cydlynu Cymunedau Lleol (CCLI) – bydd dealltwriaeth o weithredu'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y BPRh ym mis Mawrth.	<b>I'w gyflwyno mewn cyfarfod o'r BPRh yn y dyfodol</b>

- (Cam Gweithredu 23, Cyf 5.11)
- 5.2 Mae Swyddfa Rhaglen BG yn gweithio i osgoi gwrthdaro gyda chyfarfodydd drwy gysylltu â Chyngor Sir Gâr fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Fargen Ddinesig. Cynigiwyd i neilltuo diwrnod penodol o'r wythnos ar gyfer cyfarfodydd BG.
- (Cam Gweithredu 38, Cyf 1.1)
- 5.3 Cyfarfodydd cyhoeddus i'w hystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dosbarthwyd papur yn y pecyn agenda yn manylu ar gostau a goblygiadau posib cyfarfodydd cyhoeddus.
- (Cam Gweithredu 40, Cyf 4.3)
- 5.3.1 Nododd MC y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adolygu'r ffordd y mae Bae'r Gorllewin yn gweithredu a gellir penderfynu ar gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod yr adolygiad.
- 5.3.2 **Cytunwyd i adolygu'r posibilrwydd o gyfarfodydd cyhoeddus fel rhan o adolygiad Bae'r Gorllewin.**
- 5.4 Cronfeydd a rennir – dosbarthwyd papur yn y pecyn agenda – eitem 12 ar yr agenda  
(Cam Gweithredu 41, Cyf 4.6)
- 5.5 Adborth o Banel Rhanbarthol y Dinasyddion – eitem 11 ar yr agenda  
(Cam Gweithredu 46, Cyf 10.4)
- 5.6 WCCIS – e-bost i'w anfon i CBS CNPT ynghylch gweithredu  
(Cam Gweithredu 48, Cyf 11.6)

**Cynnwys  
cyfarfodydd  
cyhoeddus fel rhan o  
adolygiad  
llywodraethu BG**

**E-bost i'w anfon i  
CBS CNPT**

## **6 Newidiadau arfaethedig i ffiniau'r Bwrdd Iechyd/Diwygio Llywodraeth Leol a Phen-y-bont ar Ogwr/Cwm Taf: Effaith ar Weithio Rhanbarthol BG**

- 6.1 Bydd ymgynghoriad tri mis yn dechrau cyn Nadolig 2017 ar y newid arfaethedig i ffiniau'r Bwrdd Iechyd a CBS Pen-y-bont ar Ogwr. DM i ddarparu'r diweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru'n cysylltu â Phrif Weithredwyr BI PABM, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf.
- 6.3 Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried y goblygiadau i bartneriaid y Trydydd Sector yn ogystal â BI PABM.
- 6.4 Pwysleisiodd DM pa mor bwysig yw trosglwyddiad effeithiol Cwm Taf wrth gynnal momentwm cyrff partneriaeth ynghyd â'r posibilrwydd o wahanu prosiectau BG. Gobeithir hefyd y caiff rhai prosiectau eu parhau yng Nghwm Taf ac y bydd rhai prosiectau yn gallu parhau mewn partneriaeth â Bae'r Gorllewin.
- 6.5 Teimlwyd bod hyn yn gyfle i adolygu gwaith Bae'r Gorllewin a gwneud y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy effeithlon.
- 6.6 Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i ymchwilio i lywodraethu a pharhad ffrydiau gwaith
- 6.7 Teimlai AL y byddai'n drueni colli CBS Pen-y-bont ar Ogwr o wasanaeth mabwysiadu BG gan ei fod yn un o'r gwasanaethau gorau sy'n gweithredu ar hyn o bryd a theimlai AL y gall golli peth o'i effeithiolrwydd.
- 6.8 Cadarnhaodd DM fod arbedion maint yn cael eu harchwilio ac os yw'r fethodoleg yn gweithio'n dda yna bydd CBS Pen-y-bont

- ar Ogwr yn ystyried parhau â'r gwaith hwnnw.
- 6.9 Nododd SC y bydd statws gradd Coch/Melyn/Gwyrdd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a fydd yn rhoi darlun cliriach o sut i alluogi gwasanaethau i barhau heb effeithio ar Ben-y-bont ar Ogwr a nododd y gall hyn fod yn gyfle i weithio ar draws mwy o ALL os yw'n briodol.
- 6.10 Cadarnhaodd DM fod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ddilyn troseddu ieuencid gan nad yw hyn wedi'i ddeddfu ac mae Cwm Taf hefyd yn awyddus i ymchwilio i hyn.
- 6.11 Rhannodd ARM bryderon Panel Rhanbarthol y Dinasyddion y bydd llawer o'r gwaith gydag iechyd meddwl yn mynd ar goll os bydd y diwygiad arfaethedig yn mynd rhagddo.
- 6.12 Sicrhaodd SC ARM nad yw CBS Pen-y-bont ar Ogwr am i hyn gael effaith ar y gwaith ynghylch iechyd meddwl a nododd y byddai'r gwaith yn cael ei gynnal ar draws Cwm Taf ac felly byddai poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn aros yn gyflawn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ymgynghoriad gyda Panel Rhanbarthol y Dinasyddion.
- 6.13 Gofynnodd HD am fwy o fanylion am y gwaith gydag iechyd meddwl ym Mae'r Gorllewin.
- 6.14 Mae SHG wedi cwrdd â Chwm Taf ynghylch gweinyddu'r newid i'r ffiniau ac nid yw'n disgwyl unrhyw newidiadau o ran rheolaeth yn y gwasanaeth iechyd meddwl rhanbarthol/arbenigol.
- 6.15 Nododd AD nad yw'r newid i'r ffiniau yn ymwneud â'r bwrdd iechyd yn unig a'i bod yn broses gymhleth iawn. Y prif ffocws yw nad oes effaith ar wasanaethau presennol.

**Mwy o wybodaeth i'w darparu am waith rhanbarthol gydag iechyd meddwl SHG i rannu gwybodaeth**

## **7 Cynllun Ardal Bae'r Gorllewin: Blaenoriaethau ar gyfer ymgynghori ac adolygu**

- 7.1 Rhoddodd SH gyflwyniad ar Gynllun Ardal Bae'r Gorllewin.
- 7.2 Hoffai SH gynnal sesiwn ddatblygu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018.
- 7.3 Mae'r Cynllun Ardal yn adeiladu ar themâu craidd yr Asesiad Poblogaeth a'r 'bylchau' mewn gwasanaeth a nodwyd.
- 7.4 Mae prif ffocws y Cynllun Ardal ar flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gweithio integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarthol. Dylai'r Cynllun Ardal ymdrin â'r anghenion gofal a chefnogaeth a nodwyd yn yr Asesiad Poblogaeth rhanbarthol a chanolbwyntio ar wasanaethau integredig sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn yr Asesiad Poblogaeth.
- 7.5 Mae'r saith rhanbarth yng Nghymru yn gweithio ar Gynllun Ardal.
- 7.6 Mae'r broses yn ymwneud â Chynllun Ardal pum mlynedd gyda Chynllun Gweithredu blwyddyn o hyd yn canolbwyntio ar y camau gweithredu gofynnol ar gyfer y flwyddyn honno; gellir adolygu a diwygio'r camau gweithredu hyn yn flynyddol yn ôl yr angen.
- 7.7 Cyhoeddir y Cynllun Ardal ym mis Ebrill 2018.
- 7.8 Bwriedir cyflwyno'r Cynllun Ardal gerbron Cabinet y tri ALL a'r

- Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018.
- 7.9 Awgrymodd SH gynnal cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Chwefror 2018 er mwyn cymeradwyo'r drafft terfynol, ond mae'n anodd dod o hyd i ddyddiad addas felly mae SH yn cynnig pennu dyddiad pan fydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a chynifer o aelodau o'r bwrdd â phosib yn gallu bod yn bresennol.
- 7.10 Cyfeiriodd LJ at y problemau ynghylch cludiant cyhoeddus sy'n effeithio'n ddifrifol ar ofalwyr.
- 7.11 Cytunodd RJ fod y toriadau mewn cludiant cyhoeddus yn bwynt dilys a chytunodd fod angen edrych ar argaeledd ffisegol ehangach.
- 7.12 Awgrymodd MC y posibilrwydd o gludiant cymunedol ac ymgynghoriadau cymunedol Skype/ffonau symudol fel ateb posib i broblemau cludiant.
- 7.13 Teimlai GR fod cyfle go iawn i wneud rhywbeth cadarnhaol gyda chludiant trwy weithio'n agos gyda BGC.
- 7.14 Nododd SHG fod angen cael cysylltiadau clir gyda'r Cynllun Lles, gan gymryd ymagwedd trosgynnol at BGC a Chynllun Ardal Bae'r Gorllewin.
- 7.15 Pwysleisiodd ARM fod unigolion yn penderfynu peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'w cartrefi oherwydd cludiant cyhoeddus ac felly maent yn colli diddordeb.
- 7.16 Cytunwyd hefyd pa mor bwysig yw cynnwys gofalwyr sy'n rhieni yn y Cynllun Ardal.
- 7.17 **Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar Gynllun Gweithredu blwyddyn o hyd a Chynllun Ardal pum mlynedd**
- 7.18 **Cytunwyd bod angen ateb tymor canolig/hir i gludiant**

**Dod o hyd i ddyddiad addas ym mis Chwefror 2018 ar gyfer BPRh arbennig i gymeradwyo drafft terfynol y Cynllun Ardal**

Gadawodd DS a CA y cyfarfod.

## **8 Fframwaith Iechyd Meddwl**

Ymunodd JAD â'r cyfarfod.

- 8.1 Cyflwynodd JAD, yn gryno, y Fframwaith Strategol ar gyfer Datblygiad Iechyd Meddwl Oedolion i'r Bwrdd.
- 8.2 Cynhaliwyd ymarferion i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2017 a chafodd yr ymagwedd ei llunio a'i chreu ar y cyd gan chwe defnyddiwr gwasanaeth a etholwyd a chynrychiolwyr gofalwyr.
- 8.3 Mae canfyddiadau wedi cael eu rhannu a'u trafod â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mae'r Gorllewin; o ganlyniad, sefydlwyd gweithgor model optimwm rhwng y Bwrdd Iechyd a'r tri ALI ac mae gwaith wedi datblygu.
- 8.4 Cyflwynwyd amserlenni ar gyfer symud ymlaen; ymgynghoriad trwy'r Bwrdd Rhanbarthol ym mis Rhagfyr trwy'r Fframwaith Strategol terfynol i'w ddychwelyd i'r Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2018.
- 8.5 Nodwyd cludiant fel problem benodol i gleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth.

- 8.6 Nododd MB y bu'n bresennol mewn gweithdy ar lechyd a Digartrefedd a bod iechyd meddwl yn uchel ar yr agenda. Gofynnodd MB i hyn gael ei gynnwys yn y fframwaith.
- 8.7 Gofynnodd LJ i ofalwyr y rheiny sydd â dementia gael eu cynnwys yn y fframwaith hefyd.
- 8.8 Awgrymodd HD y dylid cynnwys y trosglwyddiad o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau i oedolion ac y dylid ymdrin â'r mater.
- 8.9 Awgrymwyd hefyd gynnwys gofal preswyl yn y gymuned, i gynnwys lles emosiynol ac iechyd meddwl.
- 8.10 Nododd JAD fod sawl ardal arall bellach wedi'u hamlygu a'u bod yn cael eu harchwilio.
- 8.11 **Argymhellion yn yr adroddiad wedi'u cytuno gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** **JAD i gynnwys meysydd ychwanegol a awgrymwyd**
- Gadawodd JAD y cyfarfod.

## **9 Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref Bae'r Gorllewin ac Ymgyrch Ymunwch â'n Cymuned Ofalgar**

- 9.1 Aeth SH trwy'r adroddiad yn fras ac esboniodd fod anhawster recriwtio staff gofal ar draws y rhanbarth.
- 9.2 Bydd ymgyrch farchnata yn dechrau ym mis Ionawr 2018.
- 9.3 Mae'r anawsterau gyda recriwtio yn rhwystr sylweddol o ran cyflwyno yn erbyn gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gefnogi mwy o bobl i fod yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- 9.4 Mae grant Cronfa Gofal Integredig gwerth £35,000 wedi cael ei ddyfarnu i Fae'r Gorllewin i wella enw da a chodi proffil gwaith gofal.
- 9.5 Dylid cwblhau'r ymgyrch erbyn 31 Mawrth 2018 yn unol ag amodau'r cyllid grant.
- 9.6 Amlinellir dulliau monitro a gwerthuso ar ddiwedd yr adroddiad.
- 9.7 **Nododd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yr adroddiad**

## **10 Y Diweddaraf am Gronfa Gofal Integredig 2017 – 2018**

- 10.1 Rhoddodd SH y diweddaraf i aelodau'r Bwrdd a gofynnodd iddynt gymeradwyo'r canlynol:
- 10.1.1 Y cais am newid ar gyfer y cynllun cyfalaf yn Abertawe.
- 10.1.2 Y cynigion ar gyfer llithriant yn y rhaglen gyfalaf.
- 10.1.3 Ymrwymiadau'r CGI mewn egwyddor ar gyfer 2018 – 2019
- 10.1.4 Sylwer y bydd rhaid i gymeradwyaeth gan aelodau'r BPRh o ffurflenni monitro ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr fod trwy e-bost ym mis Ionawr 2018.
- 10.2 Cytunwyd bod angen tystiolaeth bellach o ganlyniadau.
- 10.3 Rhannodd AJ bryderon nad oedd cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y Gwasanaethau Plant neu Blant sy'n Derbyn Gofal. Esboniodd SH fod cyfle o hyd i fynd i'r afael â hyn.
- 10.4 Nododd HD ei fod yn falch o'r cynnydd a welir yn y canlyniadau.
- 10.5 Tynnodd SH sylw at yr adroddiad Cordis Bright a gyflwynwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi.
- 10.6 **Cytunwyd i gymeradwyo'r ceisiadau uchod**

## 11 Adborth o gyfarfod Panel Rhanbarthol y Dinasyddion: 29 Tachwedd 2017

- 11.1 Rhoddodd ARM adborth o Banel Rhanbarthol y Dinasyddion.
- 11.2 Cynigiwyd y dylai fod dau ddefnyddiwr gwasanaeth a dau gynrychiolydd gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau presenoldeb mewn cyfarfodydd. Cytunodd y Bwrdd ar hyn (cynrychiolydd llawn ac aelod wrth gefn i bob un).
- 11.3 Teimlai aelodau Panel Rhanbarthol y Dinasyddion fod y cyfnod yn y swydd (blwyddyn) yn rhy fyr ac y dylai ei estyn i bedair blynedd mewn egwyddor er mwyn cyfateb â chyfnod swydd aelodau eraill. Cytunodd y Bwrdd ar hyn, gyda threfniad trosglwyddo, fel bod gan aelodau 'newydd' gyfle i ymgyswgu â gwaith y BPRh.
- 11.4 Teimlai ARM y dylid darparu hyfforddiant/sesiwn sefydlu i aelodau newydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan y gall fod yn eithaf heriol, yn enwedig gan nad yw aelodau newydd yn gwybod yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Roedd sawl aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhannu'r un farn a chytunwyd y byddai hyn yn fuddiol. Cytuno ar raglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd y BPRh.
- 11.5 Adroddodd ARM y dylai gwaith cyd-gynhyrchu a chynnwys gyda Phanel Rhanbarthol y Dinasyddion gael ei wneud yn gynharach er mwyn sicrhau bod dylanwad a chyfran deg o gyfrifoldeb.

**Cael ail gynrychiolydd gofalwyr**

**Datblygu rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd y BPRh**

## 12 Adroddiad Cynnydd Bae'r Gorllewin

- 12.1 Rhoddodd SH y diweddaraf am ffrydiau gwaith Rhaglen Bae'r Gorllewin.
- 12.2 **Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru**  
Yn dilyn cais gan Reolwr PYSC am gynrychiolwyr o Fae'r Gorllewin ar ei Fwrdd Gweithredol, cynigiodd y Grŵp Arweinyddiaeth y dylai'r canlynol gefnogi gwaith y PYSC cenedlaethol:
- Y Cyng. Mary Sherwood, Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Abertawe
  - Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl, Cyngor Abertawe, Swyddog Arweiniol Dros Dro
- 12.2.1 **Cymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**
- 12.3 **Cronfa a Rennir ar gyfer Cartrefi Gofal**  
Rhoddodd SH wybod i'r Bwrdd fod Rheolwr Cronfa a Rennir wedi'i benodi.
- 12.3.1 Mae Datganiad Sefyllfa'r Farchnad wedi cael ei anfon i'r adran Gyfreithiol a Chyllid.
- 12.3.2 Cafodd canlyniadau rhagamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn ynghyd â cherrig milltir allweddol a chymau gweithredu eu trafod yn fras; croesawodd MC yr amserlenni ar eu cyfer.
- 12.3.3 Teimlai AJ fod y terfyn amser, sef mis Ebrill 2018, yn afrealistig, yn enwedig i gydlynu cyllidebau.
- 12.3.4 Teimlai AD nad oedd digon o wybodaeth i ddangos safbwynt rhesymol.
- 12.3.5 Cytunodd HD nad yw Bae'r Gorllewin mewn sefyllfa ar hyn o

bryd i osod yr un ffioedd ac amlygodd y goblygiadau cost sylweddol petai ffioedd yn cael eu cyfartaleddu. Nododd HD hefyd ddirywiad tymor hir mewn gofal preswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr felly mae tanwariant a wneir yn iawn amdano yn erbyn y gyllideb gofal cartref. Os rhoddir cyllid mewn cyllideb ranbarthol, ychydig o hyblygrwydd a geir ar gyfer tanwariant a rheoli gwasanaethau.

12.3.6 Nododd MM y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ddatgomisiynu yn Natganiad Sefyllfa'r Farchnad.

12.3.7 **Cytunwyd i wneud gwaith ar yr opsiynau a nodir yn y papur am Gronfa a Rennir ar gyfer Cartrefi Gofal.**

12.4 **Cytunwyd i anfon llythyr at y Gweinidog newydd dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod gwaith Bae'r Gorllewin, gan amgáu Gwerthusiad Cordis Bright ar gyfer Gwasanaeth Gofal Canolraddol. Lluniwyd llythyr ond caiff ei anfon ar ran RJ ac AD fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**

## 13 UFA

Dim busnes arall

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

22 Mawrth 2017  
Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr  
Pen-y-bont ar Ogwr

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm*